# ATODLEN 5

Rheoliadau 7 ac 8

## Y TRAMGWYDD O FYND Â MWY NA NIFER PENODEDIG O GŴN AR DIR A FFURF Y GORCHYMYN

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), bydd yn dramgwydd wrth fod â chyfrifoldeb dros fwy nag un ci ar dir y mae gorchymyn rheoli cŵn (a ddisgrifir fel "Gorchymyn Cŵn (Uchafswm Penodedig)" yn y ffurf a osodir isod) yn gymwys iddo, mynd â mwy na'r uchafswm o gŵn a bennir yn y gorchymyn ar y tir hwnnw yn ystod yr amserau neu'r cyfnodau a gaiff eu pennu yn y gorchymyn.

(2) Nid oes tramgwydd yn cael ei gyflawni pan fo gan berson esgus rhesymol dros fynd â mwy na'r nifer penodedig o gŵn ar y tir, nac os yw perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â chyfrifoldeb dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo wneud hynny.

**2** Mewn unrhyw Orchymyn Cŵn (Uchafswm Penodedig) , rhaid gosod y tramgwydd o fynd â mwy na nifer penodedig o gŵn ar dir i lawr yn llawn fel y'i datgenir yn erthygl 4 yn ffurf y gorchymyn a roddir isod.

**3** Ym mhob dim arall, rhaid i Orchymyn Cŵn (Uchafswm Penodedig) sy'n darparu ar gyfer y tramgwydd hwnnw fod yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

*Ffurf y Gorchymyn*

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) 2007 (OS 2007/702 (W.59)

Gorchymyn Cŵn (Uchafswm Penodedig) [X](**1**) [X](**2**)

Mae [X] (**3**), drwy hyn yn gŵneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar [X](**4**).

**2** Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn [Yr Atodlen] [Atodlen 1](**5**).

**3** Ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, yr uchafswm o gŵn y caiff person fynd â hwy arno yw [X](**6**).

### Y Tramgwydd

**4.**—(1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros fwy nag un ci yn euog o dramgwydd [ar unrhyw amser][yn ystod [yr amserau] [y cyfnodau] a bennir yn Atodlen 2](**7**), os bydd y person hwnnw yn mynd â mwy na'r uchafswm o gŵn a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, oni bai—

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu

(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw wneud hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno.

(**1**) Dynoder, yn benodol neu'n gyffredinol, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
(**2**) Mewnosoder blwyddyn gwneud y Gorchymyn.
(**3**) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilaidd sy'n gwneud y Gorchymyn.
(**4**) Mewnosoder y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym arno, sef o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y Gorchymyn.
(**5**) Penner pa un sy'n berthnasol.
(**6**) Mewnosoder yr uchafswm.
(**7**) Penner pa rai bynnag o'r opsiynau mewn cromfachau sgwar sy'n gymwys.

**Y Gosb**

**5**

Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 4 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

[Dyddiad]

[Cymal ardystio]

[ATODLEN] [ATODLEN 1](**8**)

[Manyleb/disgrifiad o'r tir, neu'r tiroedd, y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo neu iddynt](**9**)

[ATODLEN 2

[Manyleb o'r amserau neu'r cyfnodau pan fydd y tramgwydd yn gymwys]](**10**)

(**8**) Penner pa un sy'n berthnasol.
(**9**) Dynoder, naill ai'n benodol neu drwy ddisgrifiad, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
(**10**) Os yw'n gymwys, cynhwyser Atodlen 2 yn pennu amserau neu gyfnodau.